# MYNWENT RHYDAMAN
# HEOL DYFFRYN

## RHEOLAU A RHEOLIADAU

Yr Adran Lle & Seilwaith
Parc Myrddin
Waun Dew
Caerfyrddin
SA31 1HQ

Ebrill 2024

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

<u>Cynnwys</u>


1. Dehongli a Diffiniadau ac ati
2. Rheolaeth
3. Claddu
4. Hawl Claddu Neilltuedig
5. Carreg Fedd
6. Gwaith Cynnal-a-Chadw a Iechyd a Diogelwch
7. Ffioedd a Thaliadau
8. Cyffredinol

Atodiad

- Atodiad A Ffioedd a Thaliadau a godir ar hyn o bryd.
- Atodiad B Manyleb ar gyfer codi carreg fedd.
- Atodiad C Cynllun Cofrestru.
- Atodiad D

# 1. DEHONGLI A DIFFINIADAU AC ATI

1.1 Bydd y rheoliadau canlynol yn gymwys i Fynwent Rhydaman ac unrhyw fynwent arall a sefydlir gan Gyngor Sir Caerfyrddin neu a reolir ganddynt ar ôl mabwysiadu'r rheoliadau hyn.

1.2 Yn y rheolau a'r rheoliadau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall, ystyr y geiriau, cymalau a'r ymadroddion canlynol fydd yr ystyr a nodir isod:

| | |
|---|---|
| 'Mynwent' | yw unrhyw le a ddarparir ac a gynhelir gan y Cyngor ar gyfer claddu gweddillion dynol, a bydd unrhyw gyfeiriad at 'y Fynwent' yn cyfeirio at unrhyw un o'r Mynwentydd neu bob un Mynwent y mae'r rheoliadau hyn yn gymwys iddynt. |
| 'Cyngor' | yw Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| 'Hawl Claddu Neilltuedig' | yw hawl a neilltuir i'r perchennog cofrestredig a roddir drwy weithred, i benderfynu pwy gaiff ei gladdu yn y bedd dan sylw neu ei goffau ar y bedd hwnnw; rhoddir yr hawliau neilltuedig hyn am gyfnod cyfyngedig a bennwyd gan y Cyngor yn gyfnod o 99 mlynedd. |
| 'Llain Gardd Goffa' | yw 'bedd' mewn llecyn o dir glas a neilltuwyd yn benodol ar gyfer claddu gweddillion wedi'u hamlosgi ar Adran R. |
| 'Bedd' | yw man claddu a ffurfiwyd yn y ddaear drwy gloddio twll heb unrhyw wal fewnol na bricwaith, caregwaith nac unrhyw leinin arall. |
| 'Lle Torri Bedd' | yw'r ardal a ganiateir gan y Cyngor ar gyfer torri bedd. |
| 'Arysgrifen' | yw geiriau a gymeradwywyd ar garreg fedd sy'n cyfeirio at UN person ymadawedig, pu'n ag yw'r person hwnnw wedi'i gladdu yn y bedd neu beidio. |
| 'Arysgrifen Ychwanegol' | yw pob arysgrifen a gymeradwywyd ac a ychwanegwyd ar ôl yr arysgrifen cyntaf, i UN person ymadawedig arall pu'n ag yw'r person hwnnw wedi'i gladddu yn y bedd neu beidio. |
| 'Bedd Lawnt' | yw bedd wedi'i osod mewn llecyn o dir glas gwastad ar bob Rhan arall sydd heb ei ddynodi yn rhan ar gyfer beddi 'Traddodiadol' neu feddi 'Gardd Goffa'. |

| | |
|---|---|
| 'Bedd Breifat a yw bedd neu gladdgell lle mae hawl claddu neilltuedig Chladdgell Breifat' | yw bedd neu gladdgell lle mae hawl claddu neilltuedig wedi'i ganiatau. |
| 'Bedd Gyhoeddus' | yw bedd lle nad yw'r Cyngor wedi rhoi hawl claddu neilltuedig a lle cleddir pobl nad ydynt yn perthyn i'w gilydd: cyfeiriwyd gynt at y math hwn o fedd fel Bedd Gyffredin. |
| 'Rheolwr' | yw'r person hwnnw sy'n dal y swydd Person sy'n Gyfrifol am Fynwentydd, yn ôl cyfarwyddyd y Cyngor. Y person cyfrifol yw'r Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol, ac fe all yntau enwebu unrhyw berson arall i weithredu ar ei ran neu yn ei absenoldeb. Nodir y cyfeiriad ar ddalen flaen y rheoliadau hyn. |
| 'Bedd Draddodiadol' | yw bedd ar Rannau C, D, E, F, G, H, I, J, N, T, U, V, Y. |
| 'Claddgell' | yw cell yn y ddaear o bob disgrifiad ar wahân i feddi sy'n dwyn y disgrifiad a nodir uchod i'r gair bedd. |
| 'Cynllun Cofrestru' | yw'r cynllun a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer Seiri Maen a Threfnwyr Angladdau a gymeradwywyd i gyflawni gwaith yn y fynwent. |
| \`Manyleb Carreg Fedd' | yw'r fanyleb a gymeradwywyd ar gyfer pob carreg fedd newydd a godir yn y fynwent. |
| \`Prawf Sefydlogrwydd' | yw'r prawf pwysedd 25kg a wneir i weld pa mor sefydlog yw'r cerrig beddi yn y fynwent. Gwneir y prawf hwn o leiaf bob 5 mlynedd. |
| 'llech' | ystyr 'llech' yw'r plac sy'n cael ei godi ar lain yn yr Ardd Goffa. |

## 2. RHEOLAETH

2.1 Bydd y gwaith o redeg Mynwent y Cyngor, a chladdedigaethau yn y fynwent, yn cael ei wneud yn unol â darpariaethau Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977.

2.2 Ni cheir claddu, na chodi na symud cofeb na charreg fedd, na rhoi arysgrifen ychwanegol ar gofeb neu garreg fedd, heb gael caniatâd y Rheolwr yn gyntaf. Ni chaniateir gwasgaru gweddillion wedi'u hamlosgi yn y Fynwent.

2.3 Bydd y Fynwent ar agor i'r cyhoedd ar y diwrnodau ac yn ystod yr oriau y bydd y Cyngor yn ei benderfynu o bryd i'w gilydd. Adeg mabwysiadu'r rheoliadau hyn ni chyfyngir o gwbl ar fynediad i'r Fynwent, ond mae'n bosibl y bydd angen ail-edrych ar hyn os torrir ar reolau Adran 18(1) (cyfeirier at 2.4).

Bydd mynd i mewn i'r Fynwent pan fydd y Fynwent ar gau i'r cyhoedd yn torri Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977, Adran 18(2) isod:

Ni chaiff unrhyw berson nad yw'n swyddog neu'n was yr Awdurdod Claddu neu berson arall sydd wedi cael caniatâd gan neu ar ran yr awdurdod claddu, fynd i mewn i fynwent nac aros mewn mynwent unrhyw adeg pan yw'r fynwent ar gau i'r cyhoedd.

2.4 Mae pob person i ymddwyn mewn modd gweddus, tawel a threfnus, ac fe'u hatgoffir o ddarpariaethau Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977, Adran 18(1) isod:

Ni chaiff person:

a) greu unrhyw aflonyddwch yn fwriadol mewn Mynwent;

b) peri unrhyw boendod mewn Mynwent;

c) ymyrryd yn fwriadol â chladdedigaeth mewn Mynwent;

d) ymyrryd yn fwriadol ag unrhyw fedd neu gladdgell, unrhyw gofeb neu garreg fedd arall neu unrhyw flodau neu blanhigion a adewir arnynt; na

e) chwarae unrhyw gêm neu chwaraeon mewn Mynwent.

2.5 Ni chaniateir anifeiliaid yn y Fynwent heblaw am gŵn ar dennyn.

2.6 Ni chaiff person chwarae offer sain na chwarae offeryn cerdd yn y Fynwent heb gael caniatâd y Cofrestrydd yn gyntaf.

2.7 Ni chaniateir plant dan 12 oed yn y Fynwent heblaw dan ofal person cyfrifol.

2.8 Ni chaiff person werthu na chynnig gwerthu na dangos unrhyw eitem, nwyddau nac unrhyw beth o gwbl i'w werthu na gofyn am archebion am y cyfryw bethau, yn y Fynwent.

2.9 Bydd unrhyw berson sy'n gyrru cerbyd yn y Fynwent ond yn gwneud hynny ar y lôn gerbyd neu ar y maes parcio arbennig at y diben, ac eithrio gyda chaniatâd y Rheolwr.

2.10 Rhaid i bob ymwelydd â'r Fynwent gadw at y llwybrau neu ffyrdd a ddarperir, ac eithrio pan yn ymweld â bedd neu gladdgell.

2.11 Ni chaniateir gollwng na thaflu na gosod na gadael unrhyw bapur na sbwriel o unrhyw fath yn y Fynwent, ac eithrio yn y biniau a ddarperir.

# 3. CLADDU

3.1 Mae rhannau o'r Fynwent wedi'u clustnodi ar gyfer claddu mewn lleiniau wedi'u cysegru, heb eu cysegru, lleiniau Catholig, Cyhoeddus a Gardd Goffa (claddu llwch). Cyfrifoldeb y Trefnwr Angladdau yw sicrhau y cleddir ar lain yn y rhan briodol o'r Fynwent sydd wedi cael caniatâd priodol gan y Rheolwr.

3.2. Dim ond trefnwyr angladdau sydd wedi'u cofrestru a'u cymeradwyo gan y Cyngor sydd â'r hawl i dorri bedd yn y fynwent.

3.3 Rhaid cydymffurfio â'r rheoliadau wrth gladdu corff a hynny fel arfer rhwng 9.00am a 4.00pm o ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn. Rhaid cydymffurfio â'r rheoliadau wrth gladdu llwch a hynny fel arfer rhwng 9.00am a 4.00pm o ddydd Llun hyd ddydd Gwener.

**Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir claddu ar ddydd Sul neu ar Wyl y Banc.**

3.4 Yr amser a bennir ar gyfer claddu yw'r amser y mae'r angladd i gyrraedd iet y fynwent lle cleddir y corff neu'r gweddillion.

3.5 Rhaid gwneud trefniadau claddu drwy ffonio yn gyntaf a chadarnhau hynny yn ysgrifenedig ar y ffurflen benodol 'Hysbysiad Claddu'.

Rhaid cyflwyno'r Hysbysiad hwn rhwng 9.00am a 5.00pm yn swyddfa'r Rheolwr o leiaf ddeuddydd cyn y claddu.

Ni fydd y swyddfa ar agor i dderbyn yr hysbysiadau hyn ar ddydd Sadwrn, dydd Sul nac ar Wyl y Banc.

Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am drefniadau a wnaed ar lafar lle nad yw'r trefniadau hynny wedi'u cadarnhau yn ysgrifenedig.

3.6 Rhaid i'r Hysbysiad Claddu gynnwys manylion llawn am yr ymadawedig; y claddu; a'r bedd i'w ddefnyddio.

Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau colli neu oedi cyn derbyn y cyfryw hysbysiad, gorchymyn neu ddogfen arall a ddanfonir drwy'r post, nac am gywirdeb y manylion a gynhwysir yn yr Hysbysiad Claddu.

3.7 Y person neu bersonau sy'n trefnu'r angladd fydd yn gyfrifol am drefnu bod gweinidog yn bresennol i wasanaethu yn y gwasanaeth ar lan y bedd, ac am dalu unrhyw ffi sy'n ddyledus i'r gweinidog.

3.8 Gellir cynnal unrhyw fath o wasanaeth crefyddol, ond rhaid cael caniatâd y Rheolwr cyn cynnal unrhyw seremoni arall. Gellir claddu'r arch heb gynnal gwasanaeth o gwbl.

3.9 Rhaid i bob corff a gludir i'r Fynwent fod mewn arch briodol o ddeunydd sy'n darfod, a'i gladdu yn yr arch honno. Rhaid i'r arch ddwyn digon o fanylion adnabod y person a gleddir. Dim ond un corff y mae hawl ei gynnwys mewn arch heblaw am fam a'i baban neu fabanod. Ni fydd yr Awdurdod Claddu yn caniatau claddu heb arch.

3.10 Pobl a gyflogir gan y Trefnwr Angladdau (sef y person sydd â gofal am yr angladd) fydd yn paratoi'r bedd neu gladdgell, gan gynnwys lleiniau yn yr Ardd Goffa.
Rhaid torri bedd newydd i ddyfnder o 2m - 6'6" man lleiaf, a rhaid i'r bedd fod yn barod i'w archwilio erbyn 4pm y diwrnod cyn yr angladd. Mesurir dyfnder y bedd o lefel y ddaear i waelod y bedd.

3.11 Ni chaniateir claddu corff mewn bedd yn y fath fodd fel bod unrhyw ran o'r arch yn llai na 0.9m - 3'0" yn is na lefel y ddaear gerllaw'r bedd. Cyn belled â bod y Cyngor, lle barnant bod cyfansoddiad y pridd yn addas, yn caniatau i arch gael ei gosod ddim llai na 0.6m - 2'0" yn is na lefel y ddaear gerllaw'r bedd, a bod y bedd yn cael ei gorchuddio â haen o goncrid trwch 150mm - 6" man lleiaf.

3.12 Ni cheir claddu corff mewn bedd oni bai bod yr arch wedi'u gwahanu wrth unrhyw arch sydd eisoes wedi'i chladdu yn y bedd, drwy osod haen 150mm - 6" o bridd.

3.13 Pan ail-agorir bedd er mwyn claddu arch arall ynddi, ni cheir amharu ar weddillion dynol sydd wedi'i gladdu yno na symud unrhyw bridd oddi yno sy'n aflan.

3.14 Y Trefnwr Angladdau, sef y person sydd â gofal yr angladd, sydd i bympio dŵr o fedd agored.

## 4. HAWL CLADDU NEILLTUEDIG

4.1 Gellir neilltuo bedd drwy brynu prydles hawl claddu neilltuedig yn unol â'r rheoliadau hyn a'r graddfa ffioedd a thaliadau sy'n gymwys ar y pryd.

4.2 Mae beddi lawnt newydd a lleiniau Gardd Goffa yn cael eu neilltuo yn eu tro ym mhob rhan. Rhaid cael cymeradwyaeth y Rheolwr yn gyntaf cyn dewis bedd nad yw'n dilyn y drefn hon. Cedwir planiau sy'n dangos y lleiniau beddi yn swyddfa'r Rheolwr, lle gellir eu gweld drwy wneud apwyntiad yn ystod oriau arferol y swyddfa.

4.3 Nid y Cyngor fydd yn gyfrifol os, am ba reswm bynnag, na fydd y nifer llawn yn cael eu claddu mewn bedd.

4.4 Mae pob prydles am hawl claddu neilltuedig yn parhau am gyfnod o 99 mlynedd.

4.5 Ni chaniateir torri claddgell newydd yn y Fynwent.

4.6 Bydd pob bedd newydd yn y Fynwent hon o hyn ymlaen naill ai yn fedd Lawnt neu'n fedd Gardd Goffa.

# 5. CARREG FEDD

5.1 Caniateir codi cofeb neu garreg fedd ar fedd yn y Fynwent drwy gydymffurfio â'r rheoliadau hyn a thalu'r tâl priodol. Bydd yr hawl i godi cofeb neu garreg fedd yn parhau am y cyfnod sy'n weddill o'r Brydles Hawl Claddu Neilltuedig.

5.2 Rhoddir caniatâd i godi carreg fedd ar y beddi yn y Rhannau Lawnt yn unig, ac i osod coflech ar lain yn yr Ardd Goffa yn unig.

5.3 Y Rheolwr fydd yn penderfynu yn ôl ei ewyllys ai caniatau codi carreg fedd ar fedd cyhoeddus, a hynny yn unol â'r Rheoliadau hyn a thalu'r tâl priodol. Lle rhoddir caniatâd i godi carreg fedd ar fedd cyhoeddus, bydd hynny'n amodol ar roi hawl i gynrychiolwyr y personau eraill a gladdwyd yn y bedd i goffau'r personau hefyd ar y garreg dan sylw. Gan nad oes hawl codi cofeb na charreg fedd ar fedd cyhoeddus, nid yw'r gofeb neu'r garreg fedd honno ynddi'i hun yn rhoi unrhyw hawliau, ac mae'n parhau hyd y mynno'r Cyngor.

5.4 Rhaid i gais am ganiatâd i godi cofeb neu garreg fedd newydd yn y Fynwent, newid neu ychwanegu at arysgrifen, codi cofeb neu garreg fedd newydd yn lle hen un, ychwanegu at neu symud cofeb neu garreg fedd o'r fynwent, gael ei gyflwyno i'r Rheolwr ar y Ffurflen Gais am Godi Carreg Fedd a ddarperir gan y Cyngor.

5.5 Bydd caniatâd y Cyngor i unrhyw gais o'r fath yn cael ei gadarnhau drwy roi Hawlen Codi Carreg Fedd. Bydd yr hawlen hon yn amlinellu'r fanyleb ar gyfer y dull o osod pob carreg fedd newydd a gymeradwywyd gan y Cyngor. Rhaid cydymffurfio â'r fanyleb hon. Ni cheir gwneud unrhyw waith cyn rhoi'r hawlen. Rhoddir y cyfryw hawlen ar y ddealltwriaeth y bydd y gwaith a wneir yn cydymffurfio'n llwyr â manylion y ffurflen Gais a gofynion y rheoliadau hyn. Ni chaniateir i unrhyw waith nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau hyn barhau yn y Fynwent.

Nid oes angen hawlen ar gyfer glanhau yn unig; codi carreg ar ei thraed ac ail-lefelu; atgyweirio'r llythrennu sydd eisoes ar y garreg, neu baentio'r arysgrifen oni bai bod y gofeb/carreg fedd i'w symud o'r Fynwent.

5.6 Rhaid cyflwyno manylion pob cofeb a charreg fedd i'w cymeradwyo gan y Rheolwr, ac nid yw'r maint i fod yn fwy na'r meintiau mwyaf a amlinellir ar y ffurflen gais

5.7 Rhaid cludo deunyddiau ac offer i'r Fynwent mewn modd na fydd yn difrodi'r llwybrau, llwybrau cerdded, ffyrdd na'r llecynnau glas, ac ar ôl cwblhau'r gwaith rhaid cludo pridd neu ddeunydd gwastraff yn yr un modd o'r fynwent.

5.8 Rhaid i bob gweithiwr a gyflogir ar ran perchennog prydles yr hawl claddu neilltuedig neu gynrychiolydd personol y person hwnnw, i godi cofeb neu garreg fedd neu i gyflawni gwaith ar gladdgell, cofeb neu garreg fedd sydd eisoes yn y fynwent:

i) Lenwi a lefelu'r ddaear, gwaredu pob gwastraff a deunydd diangen a thrwsio unrhyw ddifrod neu niwed a wnaed wrth gyflawni'r gwaith. Hefyd mae'n ofynnol trefnu bod y tir yn cael ei wastatu ar ôl i'r ddaear sefydlogi am gyfnod hyd at 6 mis o ddyddiad y claddu.

ii) Cyflawni'r gwaith yn ystod oriau agor arferol y Fynwent.

iii) Dod â'u hoffer a'u cyfarpar eu hunain a chyflawni'r gwaith gynted ag y medrir.

5.9 Rhaid i'r Rheolwr gael gwybod yn ysgrifenedig, a chymeradwyo bod cofeb neu garreg fedd yn cael ei symud o'r Fynwent.

5.10 Rhaid i gofeb neu garreg fedd a gaiff ei symud o fedd i hwyluso claddu, gael ei rhoi'n ôl gynted ag y bo modd wedi hynny.

5.11 Caiff unrhyw gofeb neu garreg fedd a godwyd heb ganiatâd ei symud o'r Fynwent, a gall yr Awdurdod Claddu adennill y gost o wneud hynny oddi wrth y person a orchmynnodd gosod y gofeb neu'r garreg fedd neu gynrychiolydd personol y person hwnnw.

5.12 Mae'r Rheolwr yn neilltuo'r hawl i eithrio neu symud o'r Fynwent unrhyw gofeb neu garreg fedd na chafodd ei chodi mewn modd crefftus, neu heb gydymffurfio â'r caniatâd a gymeradwywyd, neu a fyddai ym marn y Rheolwr yn anharddu'r fynwent neu yn anweddus yng ngolwg y cyhoedd.

5.13 Y perchennog fydd yn gyfrifol am sicrhau bod pob carreg fedd yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol o ran sefydlogrwydd, cyflwr ac ati. Nodir hyn yn fwy manwl ar yr hawlen codi carreg fedd.

## 6. GWAITH CYNNAL-A-CHADW A IECHYD A DIOGELWCH

6.1 Ar ôl claddu mewn bedd preifat ac amser rhesymol wedi mynd heibio i'r pridd a ddefnyddiwyd i lenwi'r bedd sefydlogi'n naturiol, rhaid i berchennog hawl claddu neilltuedig, ac eithrio yn achos bedd lawnt neu Gardd Goffa, lefelu wyneb y bedd yn unol â Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977, a gorchuddio'r wyneb yn briodol â thyweirch o'r newydd, ac eithrio'r rhan a orchuddir gan garreg fedd.

6.2 Bydd wyneb pob bedd neu gladdgell yn dir gwastad, ac eithrio yn achos carreg fedd a gymeradwywyd ac a ganiateir yn unol â'r rheoliadau hyn. Ni chaniateir tomen gladdu dywarchog ac eithrio bod y rhai sy'n bod eisoes yn cael parhau cyn belled â bod perchennog y bedd neu ei gynrychiolydd personol yn cynnal y domen gladdu mewn cyflwr da.

6.3 Ni chaniateir plannu blodau, planhigion ac ati ar feddi, claddgelloedd nac ar feddi'r Ardd Goffa, a bydd y Cyngor yn symud unrhyw beth a blennir arnynt yn groes i'r rheoliadau hyn.

6.4 Mae gosod rhithiau neu flodau artiffisial ar fedd, powlenni gwydr, crochenwaith, jariau gwydr, tiniau, croesau pren, ffensys plastig neu rwyll wifrog neu unrhyw eitem arall o bren, metel, plastig neu ddeunydd arall, yn cael ei wahardd yn gyfan gwbl, a bydd y Cyngor yn symud yn ddirybudd y cyfryw eitem a osodir ar fedd yn groes i'r rheoliadau hyn.

6.5 Mae'r Rheolwr yn neilltuo'r hawl i symud blodau, planhigion neu rithiau o fedd neu gladdgell sydd yn ei farn ef wedi gwywo, a'u gwaredu mewn modd priodol.

6.6 Mae unrhyw bridd diangen a gloddiwyd o fedd neu gladdgell i'w waredu o'r fynwent.

6.7 Bydd y Cyngor Sir yn cynnal y fynwent yn lân ac mewn cyflwr taclus gan gynnwys torri'r borfa a lladd chwyn yn ôl y gofyn.

6.8 O dan delerau'r weithred a roddwyd i bob deiliad llain, eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod y llain, a phob carreg fedd a osodir arno, yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel a chymen.

6.9 Bydd y Cyngor Sir yn gwneud profion sefydlogrwydd bob 5 mlynedd neu ynghynt os bydd angen ar gerrig beddi yn y fynwent yn unol â deddfwriaeth bresennol neu arfer da a argymhellir. Bydd y Cyngor Sir yn rhoi digon o rybudd naill ai drwy roi hysbysiad yn y wasg leol neu gysylltu â pherthnasau os gwyddys pwy ydynt i roi gwybod iddynt ymlaen llaw am y bwriad i gyflawni'r cyfryw waith fel bo'r cyfle gan berthnasau i fod yn bresennol yn ystod y profion. Dim ond personau a benodir gan y Cyngor Sir all gyflawni'r cyfryw brofion.

# 7. FFIOEDD A THALIADAU

7.1 Y ffioedd a'r taliadau a bennir ar gyfer defnyddio'r Fynwent yw'r rhai hynny a nodir yn y gyfradd ffioedd a thaliadau, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

7.2 Mae pob ffi a thâl i'w talu ymlaen llaw i'r Cyngor.

Gellir cael copi o'r rhestr o'r ffioedd a'r taliadau a godir ar hyn o bryd oddi wrth y Rheolwr, a hefyd arddangosir copi yn y Fynwent.

# 8. CYFFREDINOL

8.1 Bydd pob person (nad yw'n weithiwr y Cyngor) sy'n cyflawni gwaith yn y fynwent yn cydymffurfio â phob cyfarwyddyd a gofynion y Rheolwr.

8.2 Bydd cofrestri claddedigaethau ar gael i'w harchwilio, drwy wneud apwyntiad, yn ystod oriau arferol y swyddfa, yn ddi-dâl, yn Swyddfa'r Rheolwr.

8.3 Y Rheolwr fydd yn penderfynu ar y math neu fathau o garreg fedd a ganiateir yn y Fynwent, ac mae'r Rheolwr yn neilltuo'r hawl i wrthod unrhyw gais neu arysgrifen sydd yn ei farn ef yn anaddas. Y rheolwr fydd yn penderfynu ai caniatau placiau coffa.

8.4 Mae hawl gan y Cyngor newid neu ddiwygio'r rheoliadau uchod unrhyw adeg, a chyflwyno rheoliadau eraill fel bo angen.

8.5 Gall y Rheolwr osod cyfyngiadau dros-dro ar unrhyw fater nad yw wedi'i gynnwys yn benodol yn y Rheoliadau hyn.

8.6 Nid cyfrifoldeb y Cyngor fydd person sy'n dod i fewn i'r Fynwent, ac ni fydd y Cyngor yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am niwed neu ddifrod a achosir iddo ym mha fodd bynnag.

ATODIAD A

## ***MYNWENT HEOL Y DYFFRYN RHYDAMAN***

***Ffïoedd a Thaliadau: prisiau newydd yn dod i rym ar 1at Ebrill 2024***

| | | | Tâl Cyfredol |
|---|---|---|---|
| ***1.*** | ***Prydles Lleiniau*** | | |
| | a) | Hawliau claddu neilltuedig mewn bedd yn y ddaear | £502.00 |
| | b) | Gardd Goffa | £210.00 |
| ***2.*** | ***Ffioedd Claddu*** | | |
| | a) | Mewn bedd a brynwyd neu fedd gyffredin | £96.00 |
| ***3.*** | ***Codi carreg fedd*** | | |
| | a) | Lleiniau lawnt – carreg fedd | £134.00 |
| | b) | Gardd Goffa - tabledau | £114.00 |
| | c) | Symud beddfeini/cerrig beddau er mwyn ychwanegu enwau ac ati | £55.00 |

***Sylwch:***

*Nid ydym yn codi tâl am gladdu plant/pobl ifanc dan 18 oed.*

*Codir tâl ychwnaegol o 100% ar rai nad ydynt yn byw yn ardal Cyngor Sir Caerfyrddin.*

# ATODIAD B

## 1. MANYLEB AR GYFER CODI CARREG FEDD.

### 1.1 Cyfrifoldeb y Cyngor Sir.

Bydd y Cyngor Sir yn gosod stribedi o sylfeini concrid yn ardal y lawnt, lle rhoddir prydlesi newydd. Gosodir y sylfeini concrid yn ôl y fanyleb ganlynol:

- Lled: 450mm (18”) Dyfnder 150mm ( 6” )
- Concrid: Concrid Adeiladu 30/20
- Atgyfnerthiad: Rhwyllwaith 393.
- Uniadau symud: Rhaid rhoi uniad bob 5 metr ar y mwyaf. Uniad 10mm a’r bwlch wedi’i lenwi â bwrdd fflecsel neu’r cyffelyb a’i selio â seliwr oer.
- Ar linell ganol pob llain, darperir twll i dderbyn yr angor daear a nodir isod.

### 1.2 Cyfrifoldeb y Saer Maen.

Yr unig angor daear i’w defnyddio yw’r un a gynhyrchir gan Myatt & Leason. Mae pob carreg fedd newydd a godir i gydymffurfio â’r fanyleb ganlynol.

- Mae pob carreg fedd i’w gosod ar y sylfaen o stribed concrid.
- Darperir plinth concrid a gynhyrchir gan Premier Concrete sydd yn dod yn y maint safonol canlynol: Hyd 34” lled 14” dyfnder 4”.
- Gosodir angor daear Myatt & Leason yn y concrid gyda 80mm ohono uwchben lefel y sylfaen.
- Dim ond cerrig beddi gyda thwll 29mm o led wedi’i ddrilio’n barod yn y llinell ganol i dderbyn yr angor daear y bydd hawl eu codi.
- Meintiau’r cerrig beddi a ganiateir yw’r meintiau sydd eisoes wedi’u pennu ar gyfer y fynwent hon. Bydd y meintiau hyn wedi’u cymeradwyo ar y “Ffurflen Caniatâd Codi Carreg Fedd” cyn archebu carreg gyda’r saer maen.
- Perchennog y carreg fedd fydd yn atebol am sicrhau bod y garreg fedd yn cydymffurfio â’r prawf pwysedd 25Kg, drwy ei asiant, sef ei saer maen.

**Ni chaniateir gwyro o’r fanyleb hon.**

Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol

# ATODIAD C

**CYNLLUN COFRESTRU**

**SEIRI MAEN.**

Bydd raid i bob saer maen sy'n gwneud gwaith o godi cerrig beddi yn y fynwent:

Wneud cais am gymeradwyaeth i gael eu cynnwys ar restr ddethol o'r cyfryw bersonau.

Mae'r meini prawf ar gyfer cael eich cynnwys ar y rhestr ddethol yn golygu rhoi gwybodaeth fanwl fel a ganlyn:

- Prawf Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus sydd â lleiafswm gwerth o £10 miliwn.
- Tystiolaeth gallu drwy aelodaeth o gorff cymeradwy megis Cymdeithas Genedlaethol Seiri Maen neu'r cyffelyb.
- Tystiolaeth o hyfforddiant a wnaed gan gynnwys amser a dreuliwyd ar brentisiaeth neu dystlythyrau oddi wrth sefydliadau / awdurdodau derbyniol am ansawdd y crefftwaith a'r medrau
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Datganiadau am Systemau / Dulliau Gwaith Diogel – Asesiadau Risg a wnaed.
- Profiad perthnasol o ddefnyddio angorau daear.

Mae angen y dystiolaeth hon er mwyn sicrhau bod y gwaith a gyflawnir yn y fynwent yn waith o safon uchel, yn cwrdd â Safonau Rheoleiddio Iechyd a Diogelwch, ac yn cwrdd â gofynion y gyfundrefn profi sefydlogrwydd sydd mewn grym.

**TREFNWYR ANGLADDAU**

Rhaid i bob trefnwr angladdau sy'n trefnu claddedigaeth yn y fynwent wneud cais am gael eu cynnwys ar restr a gymeradwyir.

Mae'r meini prawf ar gyfer cael eich cynnwys ar y rhestr ddethol yn golygu rhoi gwybodaeth fanwl fel a ganlyn:

- Prawf Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus sydd â lleiafswm gwerth o £10 miliwn.
- Tystiolaeth gallu drwy aelodaeth o gorff cymeradwy megis Cymdeithas Genedlaethol.
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Datganiadau am Systemau / Dulliau Gwaith Diogel – Asesiadau Risg a wnaed.
- Tystiolaeth o hyfforddiant a wnaed a thystlythyrau oddi wrth sefydliadau / awdurdodau derbyniol am ansawdd y crefftwaith a'r medrau
- Rhestr o'r Peiriannau a'r offer a ddefnyddir – gan gynnwys hyfforddiant i redeg y peiriannau.

Mae angen y dystiolaeth hon gan fod agor a chau beddi yn weithgaredd risg. Dyma'r unig agwedd o waith y trefnwr angladdau y mae'r Awdurdod yn dymuno'i reoli a'i reoleiddio. Mae'r ddaear yn wlyb iawn yn y fynwent ac mae torri bedd gan amlaf yn peri llif – mae hyn yn

achosi problem o ran sefydlogrwydd ochrau'r beddi a hefyd yn golygu bod perygl i feddi cyfagos ddymchwel.  Rydym wedi gwneud ein hasesiadau risg ein hunain ynghyd â phennu dull o weithio a ffefrir.  Bydd pob cais yn cael ei fesur yn erbyn y safon hwn.

Nid codi rhwystrau yw bwriad y mesurau hyn, ond gan fod Heol Dyffryn yn fynwent heb ofalwr, rhaid i ni fod yn fodlon ynglŷn â gallu'r trefnwyr angladdau i gyflawni'u gwaith yn briodol a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth statudol sy'n ymwneud â phob contractwr sy'n gweithio yn ein heiddo.

# ATODIAD D

**CYNGOR YNGHYLCH YSWIRIANT**

Byddwch yn deall nad yw'r Cyngor Sir, gweithredwr y fynwent hon, yn gyfrifol am y cerrig beddau a beddfeini traddodiadol sydd wedi'u gosod yn y fynwent. Cyfrifoldeb y rhai sy'n prydlesu beddau unigol yw hwn.

Mae'n bosibl i brydleswyr yswirio'u beddfeini unigol. Nid yw'r Cyngor Sir yn darparu yswiriant ac ni all gymeradwyo unrhyw gwmni yswiriant unigol ac fe'ch cynghorir i gysylltu â'ch Trefnwr Angladdau neu Saer Meini Coffa a fydd yn gallu trefnu yswiriant arbenigol ar gyfer hyn.